Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Elizabeth Rabbitt**

**Casnewydd**



## Dyddiad Cyhoeddi

**18 Rhagfyr 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae'r gwarchodwr plant wedi'i chofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ofalu am hyd at 10 o blant o dan 12 oed. Mae wedi'i lleoli yng Nghasnewydd ac mae'n defnyddio llawr daear a gardd gefn ei heiddo er mwyn gwarchod y plant. Saesneg yw iaith y gwasanaeth.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r plant yn gwneud rhai penderfyniadau am eu chwarae ac mae ganddynt berthynas emosiynol gadarnhaol â'r gwarchodwr plant a'u ffrindiau. Mae'r plant iau weithiau'n chwarae rhan weithredol a chadarnhaol mewn gweithgareddau seiliedig ar chwarae ond megis dechrau mae'r gwaith o gynllunio gweithgareddau, arsylwi a chynnal asesiadau er mwyn tracio dysgu'r plant iau. Yn dilyn yr arolygiad, cafodd rhai gwelliannau i'r amgylchedd ac arferion iechyd a diogelwch eu gwneud ond mae angen gwneud rhagor o waith ar asesiadau risg. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ymddygiad mewn ffordd gadarnhaol er nad yw'r plant hŷn yn cael eu cynnwys yn y gwaith o lunio'r rheolau yn gyson. Er bod angen gwella'r broses o reoli'r gwasanaeth i raddau, mae'r gwarchodwr plant wedi dangos ymrwymiad addas i fynd i'r afael â'r achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad.

**2. Gwelliannau**

Gwnaeth y gwarchodwr plant rai gwelliannau o ran yr amgylchedd, gan sicrhau bod allanfeydd tân a'r broses o storio teganau yn ddiogel ac yn hygyrch yn gyffredinol. Cyflwynwyd ymarferion tân ar gyfer y plant a bwriedir cwblhau'r rhain bob mis. Cyflwynwyd cofrestr presenoldeb yn manylu ar oriau presenoldeb y plant. Nododd y gwarchodwr plant y byddai'r asesiadau risg sydd ar waith ar hyn o bryd yn cael eu hymestyn ac y byddai'r rhai nad oeddent ar waith yn cael eu cwblhau.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Nid oedd y gwarchodwr plant yn cyflawni ei chyfrifoldebau cyfreithiol o ran diogelwch tân, cofnodion diogelwch na'r gofrestr presenoldeb, ac ymdriniwyd â'r rhain yn dilyn yr arolygiad. Gwnaethom gytuno ar nifer o argymhellion er mwyn gwella ymarfer a chanlyniadau'r plant. Roedd y rhain yn ymwneud â'r canlynol: cofnodion a dogfennau; amrywiaeth o weithgareddau; arsylwadau, asesiadau a chynllunio gweithgareddau; y defnydd o'r teledu; golchi dwylo; polisïau a gweithdrefnau; ansawdd y gofal, a'r Gymraeg.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Ar y cyfan, mae'r plant yn mynegi eu hunain yn dda a gallant wneud nifer o benderfyniadau am eu gofal.  Mae'r plant yn gysurus yng ngofal y gwarchodwr plant ac maent yn ymateb yn gadarnhaol i ganmoliaeth ac anogaeth reolaidd sy'n cydnabod eu cyflawniadau. Mae'r plant iau yn ymddiddori mewn rhai profiadau chwarae ond tynnir eu sylw yn aml a phrin maent yn cymryd rhan mewn chwarae sy'n gwneud llanast neu chwarae synhwyraidd. Mae'r plant hŷn yn ymddwyn yn dda ac yn hapus i chwarae mewn ffyrdd sy'n eu hymddiddori a defnyddio gwahanol ddeunyddiau i feithrin eu dychymyg.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn gwneud rhai dewisiadau a phenderfyniadau am eu bod yn cael eu cynnwys mewn rhai agweddau ar eu gofal a'u chwarae. Clywsom y gwarchodwr plant yn gofyn i'r plant iau a oeddent am dacluso'r llyfrau a chael y posau jig-so allan, a beth roeddent am ei wneud yn y gadair uchel wrth aros am eu cinio. Ar y cyfan mae'r plant yn ddigon hyderus i fynegi eu hanghenion a'u teimladau mewn amrywiaeth o ffyrdd. Yn dilyn yr ysgol, byddai'r plant yn dewis byrbryd o'r dewis a roddwyd iddynt. Hefyd nodwyd bod y gwarchodwr plant yn gallu gwrando ar synau neu gwestiynau'r plant iau, a dehongli eu cyswllt llygad ac ystumiau llaw, yn dda. Byddai'n ailadrodd yr hyn roedd y plant yn ceisio ei ddweud, yn modelu iaith ac yn eu galluogi i gadarnhau'r hyn roedd yn well ganddynt a'u teimladau. Roedd y plant hŷn yn llwyr ymwybodol o'r opsiynau oedd ar gael iddynt, gan ddychwelyd at y model roeddent wedi dechrau ei adeiladu cyn yr ysgol â deunyddiau adeiladu bach.

Mae gan y plant lais clir.

### 1.2 I ba raddau mae’r plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi meithrin perthynas agos â'r gwarchodwr plant. Maent yn cael ymweliadau byr rheolaidd cyn dechrau er mwyn eu helpu i ymgyfarwyddo â'r drefn, y lleoliad a'r plant eraill. O ganlyniad, roedd y plant iau yn gyfforddus ac roedd ganddynt berthynas emosiynol gadarnhaol â'r gwarchodwr plant. Gwelsom blentyn yn siarad yn hapus â'r gwarchodwr plant wrth chwarae. Pan wnaeth plentyn fwrw ei ben a chynhyrfu, cafodd ei anwesu a thawelwyd ei feddwl a wnaeth ei alluogi i setlo ac ailddechrau chwarae'n gyflym. Dywedodd y plant hŷn wrthym eu bod yn mwynhau dod i dŷ'r gwarchodwr plant. Roeddent yn gwenu wrth weld y gwarchodwr plant yn aros i'w casglu o'r ysgol a gwnaethant rannu hanesion y dydd. Hefyd gwnaethom eu clywed yn sgwrsio'n hapus â'r gwarchodwr plant wrth chwarae ac yn siarad am yr hyn roeddent yn ei wneud. Caiff urddas y plant iau ei barchu adeg newid cewynnau am fod hyn yn cael ei wneud yn breifat.

Mae trefniadau setlo i mewn da yn helpu'r plant i deimlo'n ddiogel, yn gysurus ac i ymlacio.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dysgu i rannu a chymryd eu tro wrth chwarae ac mae'r plant hŷn yn hunanddisgybledig. Pan oedd y plant iau am chwarae gyda'r un tegan, gwnaeth eu hatgoffa am bwysigrwydd rhannu mewn ffordd addfwyn helpu i atal yr ymddygiad rhag gwaethygu. Caiff eu hunan-barch a'u hyder eu hannog yn gadarnhaol drwy eu canmol yn rheolaidd er mwyn cydnabod eu cyflawniadau, fel "*Good counting*". Pan wnaeth plentyn orffen y posau jig-so anifeiliaid, gwnaeth floeddio'n falch, "*I made the pig, I made the cow and I made the sheep, yeah*". Roedd yn wen o glust i glust ac ymunodd a'r gwarchodwr plant wrth glapio'n frwdfrydig i gydnabod ei gyflawniad. Mae'r plant iau yn dechrau dysgu beth sy'n dda ac yn ddrwg am fod esboniadau yn cael eu rhoi fel rheol. Maent hefyd yn dangos peth parch tuag at y teganau drwy eu helpu i'w rhoi yn ôl yn y bocsys pan ofynnir iddynt wneud hynny. Roedd y plant hŷn yn ymddwyn yn dda yn ystod yr arolygiad ac ymdriniwyd ag unrhyw anghytuno'n brydlon.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n briodol ac yn ymateb yn gadarnhaol i ganmoliaeth reolaidd.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn mwynhau rhai agweddau ar eu chwarae. Yn dilyn yr ysgol gwelsom rai o'r plant hŷn yn ymlacio ar y soffa i wylio'r teledu, tra bod eraill yn dechrau eu gemau eu hunain. Yn ystod prif ran y dydd nodwyd bod y teledu ymlaen yn y cefndir tra bod gweithgareddau yn cael eu cynnal. O ganlyniad, tynnwyd sylw'r plant yn aml. Wrth edrych ar lyfrau gyda'r gwarchodwr plant neu chwarae'n gyffredinol, byddai'r plant yn colli diddordeb yn aml gan eistedd i wylio'r teledu yn lle hynny. Golygai hyn nad oeddent yn cymryd rhan weithredol nac yn ymgysylltu mewn profiadau chwarae pwrpasol ac fe'u gwelwyd yn agor eu cegau ac yn rhwbio eu llygaid a'u hwynebau. Fodd bynnag, yn dilyn yr ysgol pan gafodd y sianel deledu ei newid ar gyfer y plant hŷn, gwelsom y plant iau yn ymgysylltu ac yn ymddiddori wrth chwarae gyda'r ceir a'r ramp. Trafodwyd ein harsylwadau ar effaith y teledu ar ymgysylltiad y plant yn eu chwarae.

Nid yw'r plant yn ymgysylltu'n gyson mewn profiadau chwarae pwrpasol a dysgu.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant iau yn meithrin rhai sgiliau newydd wrth chwarae. Mae'r rhain yn cynnwys cydsymud y dwylo a'r llygaid, canolbwyntio, siâp, patrwm a safle wrth edafu a rhoi cynnig ar bosau slotio i mewn gwahanol. Gwnaeth plentyn enwi rhai o'r rhifau ar y pos ac ymatebwyd i gyfarwyddiadau i droi'r darnau drosodd er mwyn eu helpu i ffitio. Fodd bynnag, prin mae'r plant yn cymryd rhan mewn profiadau chwarae synhwyraidd sy'n helpu i osod sail i'w dysgu cynnar. Ar y cyfan mae'r plant hŷn yn dilyn eu diddordebau personol. Gwnaethant gyflawni rolau gwahanol ac roeddent yn awyddus i actio gwahanol olygfeydd o fewn eu chwarae adeiladu, gan ddefnyddio eu dychymyg a'u creadigrwydd yn dda. Hefyd gwelsom blant eraill oedd yn hapus i eistedd, ymlacio a

gwylio'r teledu ar ôl yr ysgol nes eu bod yn barod i chwarae. Amser prydau bwyd caiff annibyniaeth y plant iau ei annog weithiau er mwyn eu helpu i feithrin rhai sgiliau hunangymorth. Gwelsom y gwarchodwr plant yn bwydo'r plant amser cinio, dim ond rhoi llwy iddynt fwydo eu hunain hanner ffordd drwy'r pryd.

Caiff annibyniaeth a dysgu'r plant eu hannog yn gyffredinol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch angenrheidiol ar waith ac er bod angen i rai gael eu datblygu, mae gan y gwarchodwr plant wybodaeth ddigonol am y rhan fwyaf. Gwnaed rhai gwelliannau i arferion iechyd a diogelwch yn dilyn yr arolygiad er mwyn helpu i ddiwallu anghenion y plant ond nid yw'r asesiadau risg yn gyflawn. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ymddygiad y plant yn effeithiol, er nad yw ymgysylltu'r plant hŷn yn y broses o lunio'r rheolau ar gyfer yr ymddygiad disgwyliedig yn gyson. Mae'r gwarchodwr plant yn rhyngweithio'n dda â'r plant wrth chwarae ond mae angen gwella systemau i arsylwi ar ddatblygiad y plant, ei asesu a chynllunio ar ei gyfer.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei rôl a'i chyfrifoldebau yn ddigon clir o ran hybu iechyd a diogelwch y plant. Mae'n deall ei pholisïau a'i gweithdrefnau'n glir o ran plant sy'n mynd ar goll, plant sydd ddim yn cael eu casglu a phlant sâl. Nid oedd polisiau ar gyfer teithiau, cludo plant, diogelu a meddyginiaeth yn ddigon manwl. Fodd bynnag, dangosodd y trafodaethau fod y gwarchodwr plant yn meddu ar ddealltwriaeth addas o'r meysydd hyn. Mae ganddi ymwybyddiaeth dda o arwyddion a dangosyddion camdriniaeth a gwybodaeth glir am y camau i'w cymryd os bydd unrhyw bryderon am les plant. Fodd bynnag, nid yw ei dealltwriaeth o Ddyletswydd Atal 2016 cystal. Strategaeth gan y llywodraeth yw hon er mwyn helpu darparwyr gofal plant i adnabod arwyddion bod plant yn cael eu radicaleiddio a'u denu i eithafiaeth.

Rhoddir esboniadau clir er mwyn helpu'r plant iau i ddysgu am chwarae diogel a chanlyniadau posibl eu gweithredoedd. Cynhelir ymarferion tân misol erbyn hyn a chedwir cofnod o hynny. Yn dilyn yr arolygiad, gwnaed gwelliannau sylweddol fel bod y plant yn gallu cael gafael ar ddiod yn hawdd drwy'r amser. Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn arferion hylendid addas wrth newid cewynnau ac mae'n annog ymarfer defnyddio'r poti mewn ffordd gadarnhaol. Anogir golchi dwylo rhywfaint o'r amser. Ar ôl yr ysgol gwelsom y plant hŷn yn golchi eu dwylo cyn cael byrbryd ond nid oedd hyn yn gyson yn achos y plant iau drwy gydol y dydd. Caiff pecynnau cinio'r plant eu cadw'n oer ac yn ffres yn yr oergell ac mae'r byrbrydau a ddarperir yn iach ar y cyfan gydag amrywiaeth o iogyrtiau a dipwyr caws ar gael. Hefyd dywedodd y plant wrthym eu bod yn cael bisgedi, a ffrwythau weithiau.

Caiff iechyd a diogelwch y plant eu hybu'n ddigonol, er bod angen diweddaru polisïau a gwybodaeth ychydig er mwyn helpu'r gwarchodwr plant i gyflawni ei rôl.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Ceir Polisi Rheoli Ymddygiad clir, sydd wedi'i ysgrifennu'n dda, a weithredir yn briodol. Mae'r gwarchodwr plant yn gyson ac yn deg ac mae'n defnyddio llawer o ganmoliaeth

er mwyn hybu ymddygiad cadarnhaol. Mae'n rhoi esboniadau clir er mwyn helpu'r plant iau i reoli eu hymddygiad. Clywsom sawl enghraifft lle cawsant eu hatgoffa i rannu, “*There’s two, we can share…*” a “*Thank you (child), he’s sharing the toy with you, that’s kind*”. Hefyd roedd defnydd da o dynnu sylw ac ailgyfeirio'r plant i chwarae gyda rhywbeth arall er mwyn rheoli a lliniaru unrhyw ymddygiad rhag gwaethygu. Tanlinellodd golwg ar ffeiliau'r gwarchodwr plant fod plant hŷn mewn blynyddoedd blaenorol wedi helpu i lunio ac ysgrifennu'r rheolau ar gyfer ymddygiad disgwyliedig. Cadarnhaodd y gwarchodwr plant nad oedd wedi gwneud hyn ers sawl blwyddyn ond nododd y byddai'n digwydd yn y dyfodol.

Mae'r gwarchodwr plant yn dathlu ymddygiad cadarnhaol ac mae'n gyson wrth reoli ymddygiad, er y gellid ystyried cynnwys y plant hŷn yn y broses.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae mesurau sylfaenol ar waith i hybu dysgu a datblygiad y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi sylwadau addas ar chwarae'r plant iau ac yn gofyn cwestiynau sy'n briodol i oedran er mwyn eu helpu i ddatblygu iaith a lleferydd. Gwnaethant weithio gyda'r gwarchodwr plant i adeiladu lloc gyda blociau adeiladu mawr ar gyfer y llewod, jiraffod ac eliffantod. Cyflwynodd y gwarchodwr plant iaith newydd, fel 'ostrich', 'sea lion' a 'hydrant' er mwyn helpu i ehangu eu sgiliau iaith. Fodd bynnag, dim ond yn yr haf y chwaraeir gyda thywod a dŵr pan fyddant yn yr ardd. Ni chynhelir gweithgareddau chwarae eraill lle gwneir llanast, fel peintio, toes chwarae neu lŵp er mwyn helpu i ddatblygu ac atgyfnerthu dysgu cynnar y plant. Nid oedd cynnydd y plant iau yn cael ei dracio ac nid oedd unrhyw gamau dilynol yn cael eu nodi i fwydo i mewn i gynllunio gweithgareddau. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym nad oedd yn hyderus yn y maes hwn. Eglurodd ei bod wedi cyflwyno system asesu ar-lein yn ddiweddar er mwyn rhannu lluniau â'r rhieni. Fodd bynnag, nid oedd wedi dechrau ei defnyddio eto ac roedd angen ychwanegu cynnwys. Er bod y plant hŷn yn gallu gofyn am rai gweithgareddau, cyflwynwyd system cynllunio gweithgareddau sylfaenol ar gyfer thema benodol yn ymwneud â byd natur ac ymchwilio i wenyn. Tynnwyd sylw at rai gweithgareddau, fel gosod trapiau gwenyn er mwyn nodi gwahanol rywogaethau, gwestai bygiau a gwylio adar gyda chwestiynau ac iaith i'w defnyddio. Nodwyd nad oedd y Gymraeg yn cael ei chynnwys wrth chwarae nac yn ystod arferion dyddiol. Fodd bynnag, nododd y gwarchodwr plant fod y plant yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi drwy fwyta cacennau cri, gwisgo i fyny a dysgu am hanes yr ŵyl.

Nid yw'r gwarchodwr plant yn hyderus yn arsylwi ar ddysgu'r plant iau, ei asesu, na chynllunio gweithgareddau er mwyn hybu eu datblygiad, ond mae ganddi systemau digonol ar waith i'r plant hŷn.

## 3. Yr amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd diogel mawr, ynghyd a gwahanol ardaloedd chwarae i'r rhan fwyaf o'r plant eu defnyddio. Gwnaed rhai gwelliannau i ddiogelwch yn dilyn yr arolygiad. Fodd bynnag, mae asesiadau risg yn wan ac mae angen chwarae'n fwy aml yn yr awyr agored fod yn amlycach unwaith y caiff yr ardd ei thacluso ac y cwblheir gwaith cynnal a chadw arfaethedig. Mae ystod eang o deganau ac adnoddau addas ar gael i'r holl blant sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac mae rhai gwelliannau i'r ffordd y cant eu storio ar waith.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Cymerir camau digonol i gadw'r amgylchedd yn ddiogel. Mae'r gwarchodwr plant yn monitro'r plant yn cyrraedd ac yn cael eu casglu'n dda ac mae'n sicrhau bod y drws ffrynt yn cael ei gloi wedyn. Gwelsom fod arferion diogel ar waith yn briodol wrth weld y plant yn cael eu hebrwng i'r ysgol a'u casglu oddi yno, a goruchwyliaeth yn y tŷ. Fodd bynnag, mae angen gwneud cryn dipyn o waith wrth adolygu asesiadau risg y gwarchodwr plant ar gyfer yr eiddo, yr ardd, y defnydd o'r car a phob math o daith er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn. Cytunodd y gwarchodwr plant i ddatblygu'r rhain. Cadarnhaodd y gwarchodwr plant y bydd gwaith cynnal a chadw ar yr ardd a gafodd ei ohirio nawr yn digwydd yn ystod haf 2019 er mwyn sicrhau ei bod yn ddiogel i'w defnyddio a chaiff y ddaear ei gwneud yn wastad ar gyfer y trampolîn. Gwnaeth adolygiad 2017 o ansawdd y gofal hefyd amlinellu cynnwys ardal wedi'i gorchuddio, gwelyau uchel ar gyfer plannu blodau a chafnau ar gyfer chwarae a dŵr a pheli. Trafodwyd bod yn gliriach ynghylch y defnydd o'r trampolîn a chael polisiau clir ac asesiadau risg ar waith, gan ystyried canllawiau'r gweithgynhyrchwr a chyngor diogelwch gan sefydliadau fel RoSPA. Mae yswiriant a thystysgrifau diogelwch nwy priodol ar waith a chadarnhaodd y gwarchodwr plant fod yr eiddo wedi cael ei ailwefru'n ddiweddar er mwyn cyrraedd safonau trydanol cyfredol. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn adolygu unrhyw ddamweiniau yn rheolaidd er mwyn nodi unrhyw batrymau ynghyd ag addasu ei harferion diogelwch yn briodol. Mae cynlluniau tân priodol ar waith a blanced tân ar gael, a chafodd rhwystrau o flaen allanfeydd tân i'r ardd a'r lolfa eu symud yn dilyn yr arolygiad.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd diogel a goruchwyliaeth briodol ond mae angen gwneud rhagor o waith ar asesiadau risg.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r eiddo yn gynnes ac yn groesawgar ar y cyfan. Caiff y plant hŷn ddefnyddio'r heuldy fel ystafell chwarae fel y mynnant a gallant fwynhau gweithgareddau tynnu llun a chrefft o bryd i'w gilydd wrth fwrdd y gegin. Nodwyd bod y plant iau yn chwarae yn y

lolfa fawr, a oedd yn gynness ac yn gysurus. Gofynnir i bob plentyn ac ymwelydd dynnu eu hesgidiau cyn mynd i mewn i'r lolfa, gan sicrhau bod y carped yn cael ei gadw'n lan i'r plant iau chwarae arno. Cyn ac ar ôl ysgol pan fo'r plant hŷn yn chwarae â deunyddiau adeiladu bach, mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau na chaiff y plant iau fynd i mewn i'r ystafell chwarae. Mae hyn yn rhoi llonydd i'r plant hŷn a chyfleoedd i chwarae gyda theganau sy'n briodol ar gyfer eu hoedran heb beryglu'r plant iau mewn unrhyw ffordd. Fodd bynnag, nodwyd hefyd fod cadair freichiau wedi'i gwthio ar draws y fynedfa i'r ystafell chwarae weddill y dydd, gan gyfyngu ar eu gallu i symud o gwmpas yn rhydd. Cadarnhaodd y gwarchodwr plant nad oedd y plant iau yn chwarae yn yr ardd yn aml a bod angen gwneud gwaith i'w thacluso a'i gwneud hi'n fwy deniadol. Fodd bynnag, mae'r gwarchodwr plant yn gwneud defnydd da o grwpiau canu, grwpiau chwarae a chanolfannau chwarae meddal er mwyn cynnig cyfleoedd chwarae corfforol mawr i'r plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu ardaloedd chwarae mawr dan do a all gael eu defnyddio gan y plant hŷn a bwriedir gwneud gwaith cynnal a chadw ar yr ardd.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a’r cyfarpar o ansawdd?

Mae ystod eang o deganau ac adnoddau addas ar gael i'r plant yn ei gofal. Gwelsom fod ystod eang o deganau, gemau a deunyddiau chwarae i blant o wahanol oedran a gallu yn yr ystafell chwarae, mewn bocsys clir. Wrth eu harchwilio, roeddent yn ymddangos yn lân ac mewn cyflwr da. Hefyd, cadarnhaodd y gwarchodwr plant fod llawer o deganau eraill yn cael eu cadw i fyny'r grisiau, a oedd yn cael eu newid yn rheolaidd fel bod y plant yn cael gwahanol brofiadau chwarae. Fodd bynnag, roedd llawer o focsys yn yr ystafell chwarae yn cael eu cadw ar ben ei gilydd neu eu cadw o flaen bocsys eraill. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r plant gael gafael ar yr hyn roeddent am chwarae gydag ef. Gwelsom y gwarchodwr plant yn gorfod symud sawl bocs er mwyn cael gafael ar y bocs posau i'r plant iau. Yn dilyn yr arolygiad, rhoddodd y gwarchodwr plant dystiolaeth fod rhywfaint o ad-drefnu wedi digwydd gyda'r blychau mawr ar y llawr a'r siliau ffenestri. Nodwyd i'r gwarchodwr plant osod tri bocs o deganau yn yr ystafell chwarae i'r plant iau eu defnyddio a oedd yn cynnig profiadau chwarae gwahanol. Roedd y rhain yn cynnwys cerbydau, gwahanol bosau a didolwyr siapiau, dau degan reidio a rhai llyfrau, gyda dau o'r rhain yn Gymraeg. Er nad yw'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd, roedd y trampolîn mawr yn yr ardd a'i rwyd diogelwch mewn cyflwr da.

Mae gan y gwarchodwr plant ystod eang o deganau a deunyddiau chwarae o ansawdd da sy'n briodol i oedran y plant, a chaiff y rhain eu newid yn rheolaidd a chymerir rhai camau i wella mynediad y plant iddynt.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae system arwain a rheoli'r gwasanaeth yn ddigonol, ond mae angen gwella polisïau a gweithdrefnau a chofnodion a dogfennau. Nid yw'r systemau presennol i fonitro a gwerthuso ansawdd na phob agwedd ar ymarfer y gwarchodwr plant yn ddigon cadarn. Fodd bynnag, mae'r gwarchodwr plant wedi dangos ymrwymiad cryf i fynd i'r afael â llawer o'r gwendidau a nodwyd. Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn gadarn er y gellid gwella'r wybodaeth a rennir.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Ar y cyfan mae'r gwarchodwr plant yn cydymffurfio am fod gwelliannau digonol wedi'u gwneud yn dilyn yr arolygiad. Trafodwyd adolygu a diweddaru ei gwybodaeth am y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010. Bydd hyn yn sicrhau bod ei hymarfer yn parhau i gydymffurfio a'i bod yn darparu gwasanaeth o ansawdd i'r plant a'r rhieni. Nododd adolygiad cychwynnol o'r Datganiad o Ddiben hepgoriadau sylweddol yn y wybodaeth. Er i rai gwelliannau gael eu gwneud i'r ddogfen, mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu SGC 1.2 a'r rheoliadau. Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith a oedd yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol. Fodd bynnag, yn dilyn yr arolygiad cadarnhaodd y gwarchodwr plant y bydd yn eu diweddaru ac roedd yn bwriadu cyflwyno Polisi Cwynion Plant ar y cyd a'r plant hŷn. Nododd adolygiad o gofnodion a dogfennau fod llawer yn anghyflawn, yn anghyfredol neu heb eu trefnu'n dda. Roedd damweiniau yn cael eu cofnodi ar gefn gwahanol gofnodion y plant ac nid oeddent yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol ac nid oedd y cofrestrau cyn mis Medi ar gael i'w gweld. Hefyd, roedd y gofrestr ar gyfer mis Medi wedi'i chymysgu a'r holl bolisïau a gweithdrefnau a gwybodaeth eraill felly nid oedd yn hawdd cael gafael arni. Dangosodd y dystiolaeth a roddwyd yn dilyn yr arolygiad fod oriau presenoldeb y plant yn cael eu cofnodi ond ni nodwyd y mis perthnasol. Er bod angen diweddaru gwybodaeth y plant a'r contractau â'r rhieni, nododd y gwarchodwr plant ei bod yn mynd i'r afael â'r materion hyn er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gael.

Mae'r gwarchodwr plant yn deall bod angen parhau i wneud gwelliannau i'r broses o reoli ei gwasanaeth.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r gwarchodwr plant yn hunanwerthuso ei gwasanaeth ar lefel sylfaenol. Cwblhaodd Ddatganiad Hunanasesu Gwasanaeth AGC yn 2016 a chynhaliodd adolygiad o ansawdd y gofal yn 2017. Nododd y ddogfen welliannau i'w gwneud yn yr ardd a sut y defnyddiwyd adborth o saith holiadur a lenwyd gan y rhieni er mwyn llywio'r adroddiad. Ar y cyfan roedd adborth y rhieni yn gadarnhaol. Diolchwyd i'r

gwarchodwr plant am ddiwallu eu hanghenion a'u bod yn "*Very happy overall and (child) is really enjoying himself*". Er i rai rhieni ofyn am fwy o chwarae a llai o deledu, canmolodd un arall y gwarchodwr plant am eu helpu gyda phroblemau tŷ bach. Amlinellodd y gwarchodwr plant rai o'r gwelliannau a wnaed yn dilyn adborth y rhieni. Fodd bynnag, nid ystyriwyd rhai materion, fel defnyddio'r teledu, ac nid oedd yr adroddiad blynyddol yn cwmpasu pob agwedd ar y gwasanaeth na safbwyntiau'r plant. Serch hynny, roedd cardiau a welsom oddi wrth blant a oedd wedi gadael gofal y gwarchodwr plant yn yr haf yn ei diolch "…*for a wonderful time*" a "…*for being such an awesome child minder*". Mae'r gwarchodwr plant wedi ystyried adborth o'r arolygiad hwn ac wedi dangos ymrwymiad digonol i fynd i'r afael â'r achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd a datblygu rhai agweddau ar ei hymarfer.

Mae'r gwarchodwr plant yn agored i gyngor ac adborth ond mae angen i systemau i fonitro a gwerthuso ansawdd y gwasanaeth gael eu hatgyfnerthu.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae gan y gwarchodwr plant gymwysterau addas ac mae'n rheoli ei hamser yn briodol. Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn arferion dyddiol y plant yn dda ac yn sicrhau prydlondeb wrth gasglu'r plant o'r wahanol ddosbarthiadau yn yr ysgol leol. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ei hyfforddiant yn gyfredol. Diweddarodd ei hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig ym mis Mai 2017, hylendid bwyd ym mis Mai 2018 a hyfforddiant diogelu ym mis Mehefin 2018. Ar hyn o bryd mae'r gwarchodwr plant yn gweithio tuag at gymhwyster gofal plant lefel 3 er mwyn helpu i ddatblygu ei hymarfer a'i gwybodaeth ymhellach. Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod angen iddi ddatblygu ei sgiliau Cymraeg, yn ogystal â'i hyder a'i gallu i arsylwi ar ddysgu a datblygu parhaus y plant, ynghyd â'u hasesu a chynllunio ar eu cyfer. Mae'r gwarchodwr plant yn diweddaru ei harchwiliad ffitrwydd yn rheolaidd ac mae'n llwyr ymwybodol y bydd angen i'w phlentyn gwblhau gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd pan fydd yn 16 oed.

Mae'r gwarchodwr plant yn dangos ymrwymiad cryf i hyfforddi a meithrin ei sgiliau a'i gwybodaeth ymhellach.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio gyda'r rhieni yn briodol. Mae'n gweithio'n agos gyda'r rhieni yn ystod y cyfnod setlo er mwyn nodi'r hyn sydd orau gan y plant a gwybodaeth ddefnyddiol am anghenion unigol y plant. Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus a bod ganddynt gydberthnasau da â'r gwarchodwr plant. Teimlwyd bod y wybodaeth a gafwyd pan wnaethant ddechrau gyntaf (sawl blwyddyn yn ôl) yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, dim ond gwybodaeth sylfaenol mae'r Datganiad o Ddiben yn ei ddarparu am y gwasanaeth ac mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn anghyflawn. O ganlyniad, nododd y rhieni nad oeddent yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os byddai ganddynt unrhyw bryderon am ofal eu plant. Mae'r contractau â'r rhieni yn cael eu diweddaru ar hyn o bryd er mwyn cytuno ar gytundebau busnes a sicrhau bod y wybodaeth a gaiff ei chynnwys yn

adlewyrchu'r gofal a ddarperir ar hyn o bryd yn gywir. Caiff manylion am ddiwrnod y plant eu rhannu'n anffurfiol drwy drafod â'r rhieni adeg casglu'r plant. Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn hoffi cael mwy o wybodaeth am eu plant ac ni chyflwynwyd systemau i rannu gwybodaeth am gynnydd eu plant a'u dysgu eto.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthnasau cryf â'r rhieni ond gellid gwella'r wybodaeth a rennir am ei gwasanaeth a dysgu a datblygu'r plant.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn

Gwnaethom hysbysu'r gwarchodwr plant nad oedd yn cydymffurfio â Rheoliad 25 (c): Peryglon a diogelwch. Y rheswm dros hyn yw na nodwyd risgiau diangen i iechyd a diogelwch y plant. Ni wnaethom roi hysbysiad diffyg cydymffurfio ar yr achlysur hwn am fod y gwarchodwr plant wedi cytuno i gwblhau'r asesiadau risg a'u hanfon i AGC i'w cwblhau.

Gwnaethom hysbysu'r gwarchodwr plant nad oedd yn cydymffurfio â Rheoliad 30 (1)(a) Atodlen 3.6: Cadw Cofnodion. Y rheswm dros hyn yw am nad yw'r gofrestr presenoldeb yn dangos amseroedd cyrraedd a gadael y plant. Ni wnaethom roi hysbysiad diffyg cydymffurfio ar yr achlysur hwn am fod y gwarchodwr plant wedi anfon llun o ffurflen newydd yn cael ei chwblhau o bresenoldeb dyddiol y plant.

Gwnaethom hysbysu'r gwarchodwr plant nad oedd yn cydymffurfio â Rheoliad 38 (1)(b): Rhagofalon tân. Y rheswm dros hyn yw nad oedd dull digonol o ddianc o'r heuldy pe byddai tân neu argyfwng. Ni wnaethom roi hysbysiad diffyg cydymffurfio ar yr achlysur hwn am fod y gwarchodwr plant wedi darparu lluniau bod yr allanfa dân yn yr heuldy wedi'i chlirio fel bod modd gadael yn gyflym mewn argyfwng.

Gwnaethom hysbysu'r gwarchodwr plant nad oedd yn cydymffurfio â Rheoliad 38 (1)(b) na Rheoliad 38 (1)(e): Rhagofalon tân. Y rheswm dros hyn yw am na chaiff ymarferion tân eu cwblhau'n rheolaidd. Ni wnaethom roi hysbysiad diffyg cydymffurfio ar yr achlysur hwn am fod y gwarchodwr plant wedi darparu tystiolaeth bod ymarfer tân wedi'i gynnal gyda'r plant yn dilyn yr arolygiad a nododd y ffurflen newydd y byddai ymarfer yn cael ei gynnal bob mis.

## 5.3 Argymhellion ar gyfer gwella

- Adolygu'r defnydd o'r teledu er mwyn sicrhau nad yw'n tynnu sylw'r plant rhag chwarae a dysgu;
- sicrhau bod pob plentyn yn dysgu arferion hylendid da, gyda phwyslais penodol ar y plant iau yn golchi eu dwylo cyn prydau bwyd ac ar ôl defnyddio'r tŷ bach;

- adolygu ac ymestyn polisïau a gweithdrefnau, gan gynnwys teithiau, cludo plant, diogelu a meddyginiaeth er mwyn sicrhau eu bod yn fanwl ac yn adlewyrchu arferion a chanllawiau presennol;
- darparu cyfleoedd chwarae dyddiol lle gwneir llanast ynghyd â chyfleoedd chwarae synhwyraidd i'r plant iau;
- dechrau arsylwi ar ddysgu'r plant, asesu eu cynnydd a'u dysgu er mwyn nodi'r camau nesaf a defnyddio'r wybodaeth a gafwyd i lywio'r gwaith o gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol;
- ehangu'r Datganiad o Ddiben i sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol ar waith yn unol â'r rheoliadau a Safonau Gofynnol Cenedlaethol 1.2;
- gwella'r systemau sydd ar waith i fonitro a gwerthuso ansawdd a phob agwedd ar y gwasanaeth a datblygu dulliau o gasglu safbwyntiau'r plant ac adborth am eu gofal;
- creu system addas i gofnodi unrhyw ddamweiniau i'r plant a sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol ar waith;
- datblygu'r wybodaeth a rennir â'r rhieni am y gwasanaeth, gan gynnwys polisïau a gweithdrefnau, y Datganiad o Ddiben a gwybodaeth barhaus am gynnydd a dysgu'r plant.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Cynhaliodd un arolygydd arolygiad llawn fel rhan o'r amserlen arolygu arferol. Cwblhawyd yr arolygiad mewn un ymweliad a barodd wyth awr. Casglwyd tystiolaeth ar gyfer yr adroddiad drwy:

- Adolygu gwybodaeth AGC, gan gynnwys yr adroddiad arolygu diwethaf a'r adroddiad ar yr Adolygiad o Ansawdd y Gofal;
- arsylwadau ar chwarae'r plant yn ystod y dydd ac ar ôl ysgol;
- mynd gyda'r gwarchodwr plant i hebrwng y plant i'r ysgol a'u casglu oddi yno;
- arsylwi ar arferion dyddiol a'r rhyngweithio rhwng y plant a'r gwarchodwr plant a'u ffrindiau;
- trafodaeth â'r plant a'r rhieni;
- archwiliad o gofnodion a dogfennaeth y gwarchodwr plant, gan gynnwys cofrestrau, polisïau a gweithdrefnau, asesiadau risg, y Datganiad o Ddiben a ffeiliau'r plant;
- archwiliad o'r ardaloedd chwarae dan do ac yn yr awyr agored;
- gwybodaeth a roddwyd i AGC gan y gwarchodwr plant yn dilyn yr arolygiad.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person Cofrestredig** | **Elizabeth Rabbitt** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **10** |
| **Ystod oedran y plant** | **3 mis i 12 oed** |
| **Oriau agor** | **07:45 i 17:30**<br>**O ddydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **24 Chwefror 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **10 Medi 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Na** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Na** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg pobl/plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu sy'n bwriadu gwneud hynny.** Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol'. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |